Ministry of Justice

# Ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol ac ymgynghoriad ar gynigion polisi

## Crynodeb Gweithredol

# Crynodeb Gweithredol o Ymateb Llawn y Llywodraeth i Ymgynghoriad CLAIR

1. Mae ymateb llawn y llywodraeth i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAIR) ac ymgynghoriad ar gynigion polisi yn dilyn 'ymateb interim y llywodraeth i'r adolygiad annibynnol o gymorth cyfreithiol troseddol a'r ymgynghoriad ar gynigion polisi' a gyhoeddwyd ar 20 Gorffennaf 2022. Mae'n amlinellu crynodeb o gwestiynau'r ymgynghoriad a'r ymatebion a gawsom, yn ogystal ag ymateb manwl gan y llywodraeth a chynigion polisi ar gyfer pob un o'r themâu a'r cwestiynau penodol a godwyd yn CLAIR a'r ymgynghoriad.
2. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Ymateb y Llywodraeth i Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol ac ymgynghoriad ar gynigion polisi' ar 15 Mawrth 2022. Roedd yn gwahodd sylwadau ar y dadansoddiad a'r cynigion a gyflwynwyd mewn ymateb i CLAIR, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 gan Syr Christopher Bellamy KC (yr Arglwydd Bellamy KC erbyn hyn), a oedd yn archwilio beth sy'n gweithio'n dda yn y system cyfiawnder troseddol a pha waith ychwanegol y mae angen ei wneud i wella cymorth cyfreithiol troseddol ar gyfer darparwyr a'r cyhoedd.
3. Roedd yr ymateb interim yn ymrwymo i gynyddu'r rhan fwyaf o ffioedd 15% a daeth hyn i rym ar 30 Medi 2022. Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau pellach gyda Chymdeithas y Bar Troseddol (CBA) a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, roeddem hefyd yn gallu cyflwyno Offeryn Statudol ym mis Hydref 2022 i gymhwyso'r cynnydd o 15% i achosion a oedd eisoes wedi cael gorchymyn cynrychiolaeth ar neu ar ôl 17 Medi 2020 ond nad oeddent wedi cael prif wrandawiad eto. Mae'r ymateb llawn i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gynigion ar gyfer diwygio yn y tymor hwy ac mae'n amlinellu ein bod yn bwrw ymlaen i raddau helaeth â'r argymhellion a gynigir yn CLAIR.
4. Cafwyd cyfanswm o 203 o ymatebion i'r papur ymgynghori. Roedd dros 63% o'r ymatebion hyn gan gyfreithwyr presennol a chyn gyfreithwyr. Roedd ymatebwyr eraill yn cynnwys y prif gyrff sy'n cynrychioli'r proffesiwn cymorth cyfreithiol troseddol, bargyfreithwyr, myfyrwyr y gyfraith, academyddion ac aelodau o'r cyhoedd.
5. Mae Asesiad o'r Effaith yn ogystal â Datganiad Cydraddoldeb wedi'i ddiweddaru wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb llawn.

**Dyfodol y proffesiynau cymorth cyfreithiol troseddol**

<u>Bwrdd Cynghori</u>

6. Nododd CAIR fod "trafodaethau gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn tueddu i gael eu cynnal yn ddwyochrog gyda'r prif ddarparwyr â buddiant", sy'n ddull gweithredu nad yw'n rhoi cyfle i bartneriaid gydweithio. Felly, gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu barn ar sefydlu Bwrdd Cynghori i ddod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol at ei gilydd i drafod rôl cymorth cyfreithiol troseddol.
7. Mae'r llywodraeth bellach wedi sefydlu'r Bwrdd Cynghori ar Gymorth Cyfreithiol Troseddol (CLAAB) i ddod â phartneriaid y system cyfiawnder troseddol at ei gilydd i

ystyried rôl cymorth cyfreithiol troseddol yng nghyd-destun y system cyfiawnder troseddol ehangach, gyda'r bwriad o sicrhau bod cynlluniau cymorth cyfreithiol troseddol yn cynnwys y strwythur cywir a'r cymhellion i gefnogi amcanion ehangach system cyfiawnder troseddol sy'n perfformio'n dda. Cyfarfu'r Bwrdd am y tro cyntaf ddiwedd mis Hydref 2022 a bydd yn cwrdd bob chwarter.

Angen heb ei ddiwallu ac arloesedd

8. Nododd CLAIR bryderon ynghylch cynaliadwyedd marchnadoedd penodol ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol a bod risg mewn rhai ardaloedd daearyddol o ddiffyg cyflenwad o ran cyfreithwyr ar ddyletswydd. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig ehangu Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS) i ddarparu capasiti ychwanegol yn y farchnad cymorth cyfreithiol troseddol. Mae'r llywodraeth yn credu bod gan y PDS rôl bwysig i'w chwarae, gan gynnwys delio ag achosion o ddiffyg yn y farchnad. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ehangu'r PDS ond byddwn yn ystyried a oes ganddo rôl i'w chwarae wrth brofi ffyrdd newydd o weithio. Yn ogystal, mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) wedi dechrau gweithio ar ddylunio Contract Troseddu Safonol (SCC) yn y dyfodol i wella cynaliadwyedd y farchnad cymorth cyfreithiol ac i hyrwyddo ffyrdd mwy effeithlon o weithio.

Rhaglenni Grantiau Hyfforddi ac Achredu

9. Argymhellodd CLAIR y dylid darparu grantiau hyfforddi i gwmnïau cyfreithwyr i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio a chadw staff a allai arwain at farchnad cyfreithwyr troseddol anghynaladwy. Mae'r llywodraeth yn cynnig dyrannu'r £2.5m a awgrymir, mewn modd sefydlog, ar gyfer grantiau hyfforddi (yn ogystal â'r £3m arfaethedig ar gyfer ehangu PDS), i ffioedd twrneiod ar gyfer gwaith gorsafoedd heddlu, fel y byddai'r pecyn cyfan o fudd i'r proffesiwn cyfreithwyr ehangach. Yn ogystal ag ailddyrannu oddeutu £10m a gynigir ar gyfer diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Ymgyfreithwyr (LGFS) i ffioedd gorsafoedd heddlu gan y byddai hynny o fudd i fwy o gwmnïau cyfreithwyr yn gynt.

Amrywiaeth

10. Nododd CLIR bod bargyfreithwyr gwrywaidd sy'n arbenigo mewn gwaith troseddol cyhoeddus yn tueddu i ennill mwy na'u cymheiriaid benywaidd, ac mae hyn yn gyffredinol yn wir pan wneir cymhariaeth rhwng bargyfreithwyr sydd â'r un statws. Bydd y llywodraeth yn parhau i adolygu'r gwahaniaeth yn incwm bargyfreithwyr, ar y cyd â Bwrdd Safonau'r Bar (BSB). Mae gan y Bwrdd raglen waith ar y gweill i egluro'r hyn y mae'n ei ddisgwyl gan siambrau wrth hyrwyddo cydraddoldeb. Bydd y mater hwn hefyd yn cael ei ystyried gan CLAAB, ynghyd ag amrywiaeth yn y proffesiwn cymorth cyfreithiol troseddol yn fwy cyffredinol.
11. Argymhellodd CLIR y gellid darparu grantiau i sicrhau nad yw bargyfreithwyr ifanc amrywiol yn cael eu heithrio o'r proffesiwn yn ystod blynyddoedd mynediad ymarfer y Bar, oherwydd lefel y ffioedd sydd ar gael. Bydd y cynnydd mewn ffioedd o hyd at 15% a ddaeth i rym ar 30 Medi 2022 yn helpu i ddenu a chadw amrywiaeth eang o ymarferwyr troseddol. Bydd y llywodraeth yn parhau i weithio gyda'r cyrff

cynrychioliadol a'r rheoleiddwyr cyfreithiol, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol (LSB), i archwilio effaith cynlluniau amrywiaeth a arweinir gan y sector sydd eisoes ar waith sy'n mynd i'r afael â rhwystrau mynediad, ac unrhyw gynlluniau ychwanegol, drwy werthuso'r cynlluniau hyn yn effeithiol. Ar ben hynny, bydd LAA yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch y gwaith o ddatblygu SCC y dyfodol, er mwyn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer y rheini sydd â phatrymau gweithio gwahanol, gan gynnwys y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu.

<u>Materion ansawdd</u>

12. Nododd CLAIR fwlch yn y system sy'n ymwneud â rheoli ansawdd ar gyfer eiriolaeth, a ddeilliodd o'r penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r Cynllun Sicrhau Ansawdd ar gyfer Eiriolwyr. Dywedodd yr ymgynghoriad y dylid ystyried y mater hwn ymhellach ar ôl i ymgynghoriad LSB ar ei ddatganiad polisi ar gymhwysedd parhaus ddod i ben. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn nodi y byddai'r llywodraeth, fel rhan o adolygiad o SCC, yn ceisio sicrhau bod contractau gyda darparwyr yn hyrwyddo safonau o ansawdd uchel. Mae'r LAA yn bwriadu adolygu ei gyfres o fesurau ansawdd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu SCC y dyfodol i sicrhau bod yr angen am wasanaethau cyfreithiol o ansawdd uchel yn cael ei gydbwyso â chost a gweinyddiaeth briodol i ddarparwyr wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.
13. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylai'r llywodraeth ystyried creu rhestr o eiriolwyr yr Arglwydd Ganghellor, gydag aelodaeth yn seiliedig ar ansawdd eiriolaeth a chysondeb gwasanaeth. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu'n sylweddol ein cynnig i edrych ar greu rhestr yr Arglwydd Ganghellor o eiriolwyr amddiffyn troseddol; felly, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd ond byddwn yn parhau i ystyried y mater.

<u>Technoleg</u>

14. Nododd CAIR y gallai technoleg o bell arbed costau ac amser ac y gallai annog perchnogaeth ar achosion, yn enwedig ar gyfer materion gweinyddol. Nododd hefyd yr anghysondeb yn y defnydd o dechnoleg rhwng gwahanol lysoedd. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod technoleg, gan gynnwys technoleg o bell, yn dal yn arf gwerthfawr i gefnogi ffyrdd effeithlon ac effeithiol o weithio yn y system cyfiawnder troseddol. Mae'r LAA yn cynllunio gwaith i ailddylunio a disodli hen wasanaethau ar draws y systemau bilio a thalu i gael gwared ar gymhlethdod ac ymdrech er mwyn gwella effeithlonrwydd ar gyfer gweithwyr achos a darparwyr. Hefyd, y Gwasanaeth Gwrandawiadau Fideo yw ateb gwrandawiadau fideo strategol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n darparu ar gyfer gwrandawiadau cwbl anghysbell a hybrid, yn ogystal â chyfranogiad dros y ffôn, gan ddarparu hyblygrwydd a mwy o gapasiti ar draws ystâd y llysoedd.
15. Nod y mesurau hyn yw gwella gweithrediad y farchnad amddiffyn troseddol gyfan a'r system gyfiawnder. Fe'u cynlluniwyd i wneud y system cyfiawnder troseddol yn fwy effeithlon – yn enwedig o ran technoleg newydd – a'r farchnad amddiffyn troseddol yn fwy cynaliadwy.

**Yr Orsaf Heddlu**

16. Y prif fater a nodwyd yn CLAIR o ran ffioedd gorsafoedd heddlu oedd nad yw'r ffioedd sefydlog presennol yn gwahaniaethu rhwng cymhlethdod achosion. Cyflwynwyd dau opsiwn yn yr ymgynghoriad ar ddiwygio strwythurol: opsiwn 1) argymhelliad CLAIR i greu ffioedd safonol; ac opsiwn 2) addasu'r trothwy ffioedd dianc presennol. Bydd y llywodraeth yn ymgynghori ymhellach ar fodel ffioedd safonol ar gyfer ffioedd gorsafoedd heddlu ar sail yr amser a dreulir ac i sicrhau bod y cynllun ffioedd yn adlewyrchu'n fwy priodol y gwaith a wneir mewn gorsafoedd heddlu.
17. Bydd y llywodraeth yn ail-fuddsoddi'r £16m sefydlog ar gyfer diwygiadau tymor hwy i gysoni'r ffioedd gorsafoedd heddlu isaf a bydd yn ymgynghori ymhellach ar fanylion y cynnig hwn. Er mwyn lleihau unrhyw gymhlethdod pellach, byddwn yn cadw'r cynllun ffioedd ar gyfer lefel statws ymarferwyr fel y mae, felly ni fydd gwahaniaeth rhwng ymarferwyr uwch ac is.
18. Unwaith y bydd y diwygiadau cychwynnol hyn i gynllun ffioedd yr Orsaf Heddlu wedi'u cwblhau, byddwn yn ystyried cynnwys Ymgysylltu Cyn-Cyhuddo (PCE) yn y cynllun ffioedd. Byddwn yn ymgynghori ymhellach ar y manylion ynghylch sut y gellir gwneud hyn.
19. Tynnodd CLIR sylw at y pryder bod y nifer sy'n manteisio ar gyngor cyfreithiol am ddim mewn gorsafoedd heddlu yn isel. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y posibilrwydd o gyflwyno'r cynllun Rhagdybiaeth o Gyngor Cyfreithiol ('Optio allan') ymhellach, sy'n awtomatig yn optio plant i mewn i dderbyn cyngor cyfreithiol am ddim yn y ddalfa. Mae'r PoLA wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus gan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd (MPS) ac mae bellach wedi cael ei gyflwyno ar draws eu holl ystafelloedd cadw. Mae'r llywodraeth yn cefnogi'r MPS a'r heddlu ehangach yn y gwaith hwn a bydd yn parhau i gydweithio â nhw, yr LAA a'r Swyddfa Gartref i fonitro'r treial a'i effeithiau. Rydym yn cynnig defnyddio'r data hwn i adolygu sut beth allai'r treial fod petai'n cael ei gyflwyno i bob plentyn yn genedlaethol.
20. Nododd CLAIR fod gweithwyr proffesiynol Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEX) yn cael trafferth cael eu derbyn fel cyfreithwyr ar ddyletswydd gan fod angen iddynt gael eu hachredu dan gynllun Cymdeithas y Cyfreithwyr (TLS). Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig gweithio gyda'r cyrff cynrychiadol a'r LAA i adolygu'r sefyllfa hon, er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol CILEX i fod yn gyfreithwyr ar ddyletswydd heb orfod cael cymwysterau ychwanegol. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i'w gwneud yn haws i gyfreithwyr CILEX sydd â chymwysterau priodol ymgymryd â rolau fel cyfreithwyr ar ddyletswydd. Felly, rydym yn ymgysylltu â CILEX, yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a Chymdeithas y Gyfraith, gyda'r bwriad o ddeall sut y gellir cydnabod y cymhwyster CILEX tebyg yn y cynllun cymorth cyfreithiol.
21. Tynnodd CLAIR sylw at gwynion am effeithlonrwydd Canolfan Alwadau'r Twrnai Amddiffyn (DSCC) a'r ffordd caiff ei rhedeg, ac roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch sut y gallwn wella'r DSCC ymhellach, yn enwedig o ran effaith digideiddio ac awtomeiddio prosesau'r LAA. O ran DSCC, mae'r LAA wedi ymrwymo

i archwilio gwelliannau i’r gwasanaeth, gan gynnwys gwneud mwy o ddefnydd o gyfleoedd i ddigideiddio ac awtomeiddio.

**Y Llys Ynadon**

22. Mae ymgysylltu ar ôl cyhuddo yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl i’r heddlu gyhuddo’r unigolyn a amheuir ond cyn y gwrandawiad cyntaf yn y Llys Ynadon. Tynnodd CLAIR sylw at nifer o faterion gweithredol o ran ymgysylltu ar ôl cyhuddo ac argymhellodd y dylid dyrannu cyllid ychwanegol. Mae’r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod gwahanol bartneriaid yn y system cyfiawnder troseddol yn ymgysylltu â’i gilydd cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, oherwydd bod y prif faterion a godwyd yn yr ymateb i’r ymgynghoriad mewn perthynas ag ymgysylltu ar ôl cyhuddo yn gysylltiedig â materion gweithredol (fel oedi a achosir gan bartïon eraill), nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i’r ffordd y mae ymgysylltu ar ôl cyhuddo yn cael ei dalu ar hyn o bryd.
23. Daeth CLAIR i’r casgliad nad oedd angen diwygio strwythur y cynllun presennol ar gyfer ffioedd Ynadon, ac adlewyrchwyd hyn yn y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r ymgynghoriad. Nid ydym yn bwriadu diwygio cynllun ffioedd y Llys Ynadon y tu hwnt i’r cynnydd o 15% mewn ffioedd sydd eisoes wedi’i roi ar waith.

**Llys y Goron**

24. Awgrymodd CLAIR y byddai strwythur ffioedd safonol yn mynd i’r afael â’r cymhellion gwrthnysig presennol a amlygwyd yn y Cynllun Ffioedd Graddedig i Ymgyfreithwyr (LGFS). Mae cyfundrefn ffioedd safonol yn gwyro mwy tuag at symlrwydd, tra bo’r cynllun LGFS presennol yn adlewyrchu gwaith a wneir drwy ddirprwyon megis Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad (PPE). Bwriad y llywodraeth yw modelu ac ymgynghori ar gynllun LGFS diwygiedig sy’n seiliedig ar ddata cyfredol a thybiaethau a ddatblygwyd ar y cyd ag ymarferwyr, gyda’r bwriad o ddibynnu llai ar PPE a chanolbwyntio mwy yn lle hynny ar ffioedd sylfaenol sefydlog ar gyfer pob math o drosedd. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar gynllun LGFS diwygiedig erbyn dechrau 2024. Bydd y gwaith i ddiwygio’r LGFS yn cynnwys is-grŵp o CLAAB.
25. Bydd £3m ychwanegol (dros weddill cyfnod yr Adolygiad o Wariant (SR)) yn cael ei fuddsoddi er mwyn gallu ehangu’r amgylchiadau lle gellir gwneud taliadau Paratoadau a Wastraffwyd, ochr yn ochr â newidiadau i argaeledd Paratoadau Arbennig, o dan y Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr (AGFS). Byddwn yn datblygu meini prawf manwl ar gyfer dosbarthu’r cyllid newydd mewn ymgynghoriad â CLAAB.
26. Gwnaeth CLAIR gyfres o argymhellion i ddatrys problemau gyda’r model taliadau presennol AGFS ac i hyrwyddo taliadau teg o dan y cynllun. Bydd angen gwneud rhagor o waith i ddiwygio’r AGFS yn y tymor hir y galwyd amdano yn CLAIR. Yn benodol, mae angen i ni asesu a yw ffioedd briff a ffioedd gwrandawiadau yn parhau i i fod yn daliadau rhesymol i eiriolwyr am waith paratoi yn y rhan fwyaf o achosion, a phenderfynu ar ba bwynt (ac am ba resymau sy’n ymwneud â chymhlethdod) y bydd

achos yn eithriadol ac y dylai elwa o ffi uwch. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn bwriadu gweithio gydag eiriolwyr a'u cyrff cynrychioliadol i gasglu mwy o ddata.

27. Mae tystiolaeth fideo wedi'i recordio ymlaen llaw a chroesholi (Adran 28) yn un o'r ystod o fesurau arbennig sydd ar gael ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed ac yn cael eu bygwth, gan eu cefnogi i roi eu tystiolaeth orau. Mae'r llywodraeth wedi dyrannu £4m ychwanegol (dros weddill y cyfnod SR) i fargyfreithwyr amddiffyn sy'n ymwneud â gwrandawiadau a gynhelir dan Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999. Byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer ymgysylltu ag ymarferwyr ar y camau nesaf ar gyfer talu am waith a.28, gyda'r nod o gasglu data am y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â gwrandawiadau a.28 i lywio newidiadau i'r strwythur ffioedd yn y dyfodol.

**Y Llys Ieuenctid**

28. Cynigiwyd dau opsiwn ar gyfer yr ymgynghoriad ynghylch ffioedd llys ieuenctid: opsiwn 1) Ehangu'r cwmpas ar gyfer "Cwnsler Penodedig" i bob trosedd Ditiadwy yn Unig; ac opsiwn 2) Ffioedd uwch y llys ieuenctid ar gyfer pob trosedd Ditiadwy yn Unig a throseddau Neillffordd. Yr opsiwn ffioedd uwch a gafodd y gefnogaeth fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Byddwn felly'n rhoi hyn ar waith ac yn ymgynghori ymhellach ar fanylion cymhwyso'r ychwanegiad o fewn y cynllun ffioedd presennol. Bydd y llywodraeth yn dyrannu £5m ychwanegol, mewn modd sefydlog, tuag at ddiwygio ffioedd y Llys Ieuenctid, ar ben y cynnydd ehangach yn ffioedd y Llysoedd Ynadon.
29. Argymhellodd CALIR hefyd y dylai rheoleiddwyr ddatblygu math o achrediad ar gyfer pob ymarferwr sy'n gwneud gwaith Llys Ieuenctid ac y dylai'r cyfraddau uwch ar gyfer gwaith Llys Ieuenctid fod ar gael i'r rhai sydd â'r achrediad angenrheidiol yn unig. Cred y llywodraeth na ddylai achredu fod yn ofyniad ffurfiol i gyfreithwyr sy'n derbyn ffioedd uwch am waith llys ieuenctid.

**Materion eraill sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol troseddol**

30. Argymhellodd CLAIR gynnydd o 15% ar gyfer ffioedd ymgyfreithwyr ar gyfer Achosion Cost Uchel Iawn (VHCC). Mae'r llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn a daeth y ffioedd uwch i rym ar 30 Medi 2022. Mae'r llywodraeth yn cytuno â CLAIR bod angen egluro'r cynllun Cynigion Ffioedd Sefydlog Interim (IFFO). Byddwn yn ymgysylltu ag ymarferwyr ar adolygu'r trefniadau VHCC i sicrhau bod eiriolwyr yn cael eu talu'n deg ac yn gymesur am VHCC. Byddai hyn yn niwtral o ran cost. Byddwn yn datblygu cynigion ac yn ymgynghori ar hyn cyn egluro'r cynllun mewn rheoliadau.
31. Argymhellodd CLAIR y dylai'r ffioedd sefydlog presennol am gyngor a chymorth ar geisiadau i'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol (CCRC) gael eu hailstrwythuro i safon is, uwch, a ffioedd ansafonol i adlewyrchu cymhlethdod a'r amser sy'n debygol o gael ei dreulio. Mae'r llywodraeth yn bwriadu dyfeisio ffioedd safonol ar gyfer

achosion CCRC gyda ffi safonol is ac uwch, sy'n adlewyrchu gwahanol lefelau o waith a wneir yn dibynnu ar gymhlethdod y mater, yn debyg i ffioedd ansafonol yng ngwaith y Llys Ynadon.

32. Canfu CLAIR fod achosion cyfraith carchardai yn gymhleth ac nad oedd y ffi sefydlog na'r mecanwaith ffioedd dianc presennol yn adlewyrchu'r cymhlethdod hwn. Argymhellodd CLAIR y dylid diwygio ffioedd ar gyfer achosion cyngor a chymorth yn system o ffioedd safonol. Ni fydd y llywodraeth yn cynyddu ffioedd am gyngor a chymorth cyfraith carchardai ar hyn o bryd. Yn hytrach, rydym am ganolbwyntio'r buddsoddiad ar ddiwygio a gwella ymgysylltu yn ystod camau cynnar achosion troseddol, gan helpu i wyro pobl allan o'r system cyfiawnder troseddol a lleihau'r ôl-groniadau. Mae'r llywodraeth yn cytuno â CLAIR y dylid diwygio ffioedd am gyngor a chymorth cyfraith carchardai i fod yn system o ffioedd safonol a bydd yn bwrw ymlaen â gwaith ar hyn.